

# Planhigion gwyllt Cymru er budd ein tirwedd a bioamrywiaeth

Canllawiau ar gyfer prosiectau plannu  
yng nghefn gwlad

*Hybu'r gwaith o adfer planhigion gwyllt er budd bioamrywiaeth, tirweddau a phobl*





Mae'r canllawiau hyn wedi'u hanelu at grwpiau sy'n ymwneud â phrynu neu ddefnyddio planhigion gwyllt o Brydain gan gynnwys y canlynol:

#### **Llywodraeth leol**

Cynghorau Sir, Cynghorau Dosbarth, Cynghorau Unedol a Chynghorau Dinas  
Cynghorau Tref neu Gyngorau Cymuned  
Awdurdodau Parciau Cenedlaethol  
Byrddau rheoli Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol

#### **Asiantaethau neu adrannau'r llywodraeth sy'n ymwneud â gwarchod treftadaeth naturiol**

#### **Ymgwymerwyr statudol/cwmnïau cyfleustodau**

#### **Cyflenwyr rhywogaethau planhigion gwyllt o Brydain**

#### **Tirfeddianwyr preifat neu dirddeiliaid eraill**

Clybiau pysgota  
Datblygwyr  
Cwmnïau rheoli parciau busnes  
Cwmnïau chwarelu neu fwyngloddio  
Busnesau ffermio neu goedwigaeth  
Busnesau chwaraeon  
Stiwardiaid tir

#### **Ymgynghorwyr, contractwyr neu gynghorwyr proffesiynol yn y meysydd canlynol:**

Ecoleg neu gefn gwlad  
Rheolaeth amgylcheddol  
Ciperiaid, ciperiaid afon  
Cynllunwyr gerddi  
Rheoli gerddi, parciau neu fannau agored  
Stiwardiaid tir  
Penseiri tirwedd  
Cynllunio  
Tirlunio neu reoli tirwedd

#### **Cyrff sy'n ariannu prosiectau adfer tirwedd a threftadaeth naturiol, sy'n cynnwys ymddiriedolaethau elusennol, noddwyr busnes a chyrff ariannu cyhoeddus**

#### **Sefydliadau cadwraeth**

#### **Mudiadau cymunedol, clybiau neu ysgolion**

Os yw eich prosiect yn dilyn y canllawiau arfer da sydd wedi'u cynnwys yn y llyfryn hwn, cysylltwch â *Flora locale* er mwyn hyrwyddo eich gwaith. Bydd prosiectau sydd wedi defnyddio fflora gwyllt o Brydain y gellir olrhain eu tarddiad yn cael eu dangos ar y map rhyngweithiol ar wefan *Flora locale*. Ewch i [www.floralocale.org](http://www.floralocale.org) i weld prosiectau eraill ar hyd y wlad a gwneud cais am ffurflen.

# Cyflwyniad

Mae pobl ar hyd a lled Ynysoedd Prydain ac Iwerddon yn mynd yn wyllt – yn llythrennol. Mae blodau gwyllt, coed a llwyni o Brydain yn cael eu hau a'u plannu ar raddfa na welwyd mo'i thebyg o'r blaen, a hynny ar ffermydd ac mewn coedwigoedd, parciau dinesig, gerddi maestrefol, chwareli ac ar hyd ochrau ffyrdd.

Ar adeg pan fo'r cynefinoedd a'r rhywogaethau bywyd gwyllt sy'n bodoli yn dal i fod o dan bwysau, a'r cyhoedd yn fwyfwy awyddus i ddod i gysylltiad â mannau gwyllt, gall y prosiectau hyn wneud cyfraniad go iawn i'r gwaith o wella'r amgylchedd ar gyfer pobl a bywyd gwyllt.

Mae'r canllawiau hyn wedi'u hanelu at amrywiaeth o sefydliadau ac unigolion yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol sydd:

- ✿ yn talu am waith plannu neu hau, yn ymgymryd â gwaith o'r fath neu'n trefnu bod eraill yn ei wneud
- ✿ yn berchen, yn rheoli neu'n datblygu tir, neu'n rhoi cyngor ac arweiniad i eraill sy'n berchen, yn rheoli neu'n datblygu tir
- ✿ yn rhoi grantiau i sefydliadau ar gyfer plannu gerddi, creu cynefinoedd a gwneud gwaith adfer
- ✿ yn cynhyrchu ac yn cyflenwi hadau a phlanhigion brodorol.

Mae rhagor o wybodaeth fanwl i gefnogi'r canllawiau hyn ar gael ar-lein ar [www.floralocale.org](http://www.floralocale.org).



Diben yr arweiniad a geir yn y ddogfen hon yw annog mwy o ddefnydd o fflora gwyllt o Gymru a Phrydain, ac annog arfer da ymhlith y rheiny sy'n cyflenwi planhigion gwyllt a'r rheiny sy'n pennu'r gofynion ar gyfer eu defnyddio er mwyn sicrhau bod y planhigion iawn yn cael eu defnyddio yn y ffordd iawn ac yn y man iawn.



# PLANNU ER BUDD BIOAMRYWIAETH



Does dim byd yn bod ar y trilliw, rhosyn-y-mynydd gwyllt neu'r petwnia – cyhyd â'u bod nhw yn y lle iawn. Planhigion gerddi ac amrywiadau garddwrol o rywogaethau gwyllt yw'r rhain ac mae'n well eu cyfyngu i erddi mewn trefi neu bentrefi, yn ddigon pell o gefn gwlad agored ac ardaloedd sy'n sensitif o safbwynt ecolegol.

## Egwyddorion allweddol

**Cydnabod** nad yw creu cynefinoedd a phlannu yn weithgareddau sy'n gallu cymryd lle gwarchod safleoedd sy'n bodoli'n barod ac sy'n werthfawr iawn o safbwynt bywyd gwyllt.

**Ystyried y potensial ar gyfer aildyfiant naturiol** – mewn rhai achosion ni fydd angen plannu.

**Cynllunio eich prosiect yn dda** fel y gall gyfrannu at yr amcanion a nodwyd yn eich cynllun gweithredu bioamrywiaeth lleol. *Mae'n bosibl y bydd angen i chi gael help gan ecolegydd cymwys wrth gynllunio prosiect a monitro ei gynnydd.*

**Cynllunio ymlaen** – caniatáu digon o amser i gontactwyr allu cael gafael ar y planhigion a pharatoi'r safle.

### Os oes angen plannu neu hau...

#### ... defnyddiwch rywogaethau sy'n:

- ☼ addas ar gyfer y lleoliad ac amcan y prosiect
- ☼ ychwanegu at gymeriad naturiol y cefn gwlad a hynodwydd lleol yr ardal, yn hytrach nag yn amharu arnynt.

#### ... dewiswch hadau neu blanhigion sydd o darddiad priodol. Mae hynny'n golygu planhigion:

- ☼ sy'n dod o Brydain ar gyfer prosiectau mewn gerddi neu drefi sy'n ddigon pell o safleoedd sy'n sensitif o safbwynt ecolegol (neu sy'n dod o Gymru lle bo hynny'n bosibl)
- ☼ sy'n dod o rywle yn y rhanbarth neu'r ardal leol ar gyfer prosiectau yng nghefn gwlad
- ☼ sy'n dod o gynefin tebyg gerllaw, ar gyfer prosiectau plannu mewn ardaloedd sy'n sensitif o safbwynt ecolegol neu'n agos atynt, gan gynnwys ynisoedd.

**Gofynnwch** i'r cyflenwr am dystiolaeth ysgrifenedig o darddiad hadau neu blanhigyn (adnabod tarddiad).

**Peidiwch â phlannu rywogaethau estron neu amrywiadau garddwrol** yng nghefn gwlad y tu allan i ffiniau pentrefi a threfi.

# DEFNYDDIO A PHRYNU PLANHIGION-RHAI PROBLEMAU CYFREDOL

**Ar hyn o bryd, nid yw rhai o'r coed a'r llwyni 'brodorol' sy'n cael eu plannu yng nghefn gwlad yn dod o Gymru neu rannau eraill o Brydain. Yn hytrach, maent yn dod o wledydd sydd â gwahanol hinsawdd i'r wlad hon.**

Mae'n bosibl y byddant yn blodeuo'n gynt na'n coed brodorol ni ac yn methu dygymod â rhew a byddant yn edrych yn wahanol yn aml. Yn ffodus, ceir nifer o blanhigfeydd yng Nghymru a siroedd y Gororau sydd erbyn hyn yn arbenigo mewn casglu a lluosogi hadau gwyllt o goetiroedd Cymru. Trwy gefnogi'r mentrau lleol hyn gallwch gyfrannu at y gwaith o adfer coed gwyllt o Gymru i gefn gwlad.

**Mae rhai blodau gwyllt a phlanhigion dyfrol a ddefnyddiwyd yn ddiweddar ar gyfer prosiectau adnewyddu ffermydd a phrosiectau tirwedd yn dod o ffynonellau estron hefyd. Mae mwyfwy o groesrywiau'r ardd ac amrywiadau garddwrol eraill yn cael eu plannu mewn ardaloedd gwledig hefyd.**

O ganlyniad, mae ein cefn gwlad yn 'llai gwyllt', mae cymeriad ardaloedd cefn gwlad lleol yn cael ei erydu ac mae risgiau newydd yn cael eu cyflwyno i'n fflora brodorol. Er bod y bwriad yn dda gall plannu ar raddfa fawr yn y modd hwn gael ei gymharu â cholli amrywiaeth ar y stryd fawr, lle mae'r un hen siopau i'w gweld trwy'r wlad a'r siopau lleol yn cael eu colli.

**Mae bylbiau cennin Pedr garddwrol yn rhad i'w prynu, ac mae llawer iawn ohonynt yn cael eu plannu ar hyd ymylon ffyrdd gwledig. O ganlyniad, mae planhigion croesryw i'w cael mewn poblogaethau cyfagos o gennin Pedr gwyllt.**

Fel arfer, yr amrywiadau ar gyfer yr ardd sy'n cael eu plannu ymhobman ar draws Cymru, yn hytrach na'r genhinen Bedr wyllt dlws – sef arwyddlun cyfarwydd a chenhinen Bedr brodorol Cymru.

**Weithiau, caiff briallu'r ardd lliwgar eu gwerthu mewn canolfannau garddio – fodd bynnag nid dyma'r friallen wyllt bur a geir mewn coedwigoedd a chloddiau.**

**Nid yw rhai cyflenwyr hadau, planhigion a choed gwyllt yn rhoi digon o wybodaeth am darddiad eu stoc.**

Mae rhai cymysgeddau o hadau blodau gwyllt 'brodorol' yn cynnwys rhywogaethau nad ydynt yn tyfu'n wyllt ym Mhrydain. Mae *Flora locale* yn ymgyrchu i sicrhau bod cyflenwyr yn rhoi gwybodaeth glir i brynwyr trwy ddarparu manylion am darddiad hadau ar labeli a phecynnau. Mae cyflenwyr sy'n ymrwymo i arfer da yn cael eu gwahodd i gydymffurfio â Chôd Ymarfer *Flora locale* ar gyfer Cyflenwi Fflora Brodorol.



Mae *tarddiad* yn cyfeirio at y man yn y gwyllt lle cafodd yr hadau neu'r planhigion gwreiddiol eu casglu. Ni ddylid cymysgu hyn â *tharddle*, sydd yn aml yn golygu lleoliad y blanhigfa lle caiff hadau eu cynhyrchu neu'u tyfu.



# ARWEINIAD AR BLANNU ER BUDD BIOAMRYWIAETH

Mae'r ddogfen hon yn ymdrin â:

- ☼ phob rhywogaeth o blanhigion fasgwlaidd sy'n frodorol i Brydain (neu Gymru lle bo hynny'n bosibl), sy'n cynnwys blodau gwyllt, glaswelltau, coed a llwyni, planhigion dringol, hesg, brwyn a rhedyn
- ☼ planhigion cyfan, hadau, rhisomau, bylbiau, cormau a thoriadau

## Ceisio cyngor

Wrth gynllunio neu ystyried prosiect, mae'n bosibl y bydd angen cael cyngor proffesiynol gan ecolegydd cymwys neu arbenigwr arall sydd â gwybodaeth dda am gymunedau planhigion Prydain. Gellir cadw'r arbenigwr hwn i fonitro ac archwilio cynlluniau plannu neu raglenni adfer mawr.

Dylid cael cyngor gan yr asiantaeth gwarchod natur genedlaethol os yw'r gwaith plannu'n digwydd yn agos at Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig neu ardal a gaiff ei gwarchod gan Ewrop, neu mewn safle o'r fath<sup>1</sup>. Rhaid i unrhyw waith sy'n debygol o effeithio ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig neu ardal a gaiff ei gwarchod gan Ewrop gael ei gymeradwyo o flaen llaw gan yr asiantaeth berthnasol a hynny ar ffurf ysgrifenedig.

Dylid ymgynghori â'r Ymddiriedolaeth Natur leol neu gorff cadwraeth arall os yw hynny'n briodol.

## Planhigion gwyllt a'r gyfraith

Ceir nifer o ddeddfau sy'n cyfyngu ar ein gallu i gasglu pob math o blanhigion a rhai mathau o hadau o dir gwyllt ar rai safleoedd sy'n cael eu gwarchod a thir cyhoeddus. Er enghraifft, mae'n anghyfreithlon diwreiddio unrhyw blanhigyn gwyllt heb ganiatâd y trefeddiannwr, ac mae gofyn cael awdurdod yr asiantaeth berthnasol o fewn y Llywodraeth ar gyfer marchnata glaswellt cofrestredig a rhywogaethau porthiant, coed sy'n cael eu gwarchod gan reoliadau Deunyddiau Atgynhyrchu Coedwigoedd a chlychau'r gog gwyllt. Mae nodyn cynghori *Flora locale, Guide to seed collecting and the law* yn crynhoi'r wybodaeth berthnasol. Mae'n anghyfreithlon plannu rhai rhywogaethau ar dir gwyllt hefyd.

## Gwarchod safleoedd presennol sy'n werthfawr o safbwynt treftadaeth

Ni ddylid ystyried bod gwaith creu cynefinoedd yn weithgaredd sy'n gallu cymryd lle gwarchod safle sy'n bodoli'n barod ac sy'n werthfawr iawn o safbwynt bywyd gwyllt.

Ni ddylai gwaith plannu o unrhyw fath niweidio safle sy'n cynnal cynefinoedd neu rywogaethau gwyllt sy'n bwysig o safbwynt gwarchod natur, neu nodweddion sy'n werthfawr o ran eu treftadaeth ddiwylliannol neu o safbwynt archeolegol neu hanesyddol<sup>1</sup>.

Yn gyffredinol, ni ddylai hadau a phlanhigion gael eu cyflwyno o fan arall os yw'r safle'n cynnwys cynefin lled-naturiol pwysig megis coetir brodorol, gwrych sydd â chyfoeth o rywogaethau, cynefin dyfrol, rhostir neu laswelltir â blodau gwyllt, oni bai bod hynny'n cael ei

ystyried yn hanfodol am resymau ecolegol. Mewn ardaloedd lle mae plannu neu hau'n cael eu hystyried yn hanfodol, dylai'r stoc sy'n cael ei phlannu ddod o gynefin tebyg gerllaw lle bynnag y bo hynny'n bosibl (gweler y tabl *Dod o hyd i fflora brodorol* ar y dudalen gyferbyn).

Mae'n bosibl y bydd angen mynd ati'n fwriadol i gasglu hadau a'u lluosogi er mwyn cael stoc ddigonol i'w phlannu.

Gellir cefnogi'r arfer o gasglu hadau neu blanhigion gwyllt (e.e. trwy ddefnyddio dull o gasglu hadau oddi ar laswelltir brodorol a elwir yn '*brush-harvesting*') lle caiff hyn ei ystyried yn gynladwy ac os oes safle addas ar gael i gasglu'r hadau ohono.

Cyn gwneud unrhyw waith plannu a allai niweidio nodwedd neu safle bywyd gwyllt sy'n bodoli dylid cynnal asesiad ecolegol priodol yn unol â'r canllawiau cyfredol a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol ([www.ieem.net](http://www.ieem.net)). Dylid gweithredu'r arfer gorau wrth werthuso asesiadau o'r fath hefyd.

Os yw safle bywyd gwyllt wedi erydu neu wedi'i ddifrodi mewn modd arall, dylid cymryd camau i fynd i'r afael â'r hyn sydd wedi achosi'r difrod a mabwysiadu dulliau priodol o reoli'r safle (e.e. lleihau nifer yr anifeiliaid sy'n pori'r safle neu reoli mynediad i'r cyhoedd) cyn ystyried ailhadu neu blannu yn yr ardal sydd wedi'i difrodi. Dylai unrhyw waith hanfodol (e.e. at ddibenion iechyd a diogelwch) sy'n debygol o niweidio'r nodweddion hynny sydd o ddiddordeb o safbwynt bywyd gwyllt neu o safbwynt hanesyddol neu ddiwylliannol, neu sy'n destun caniatâd cynllunio neu amod cynllunio, ddilyn yr arfer gorau a fydd yn osgoi neu'n lleihau difrod i'r tir (e.e. tynnu glaswellt oddi yno ac yna'i ailosod).

Hyd yn oed os ydynt wedi marw, mae hen goed yn werthfawr iawn o safbwynt bywyd gwyllt, treftadaeth ddiwylliannol a thirwedd. Dylent gael eu cadw, a dylai cynlluniau tirlunio tir agored a briffiau datblygu gynnwys dulliau o'u gwarchod.

## Dylunio a chynllunio prosiectau

Dylid cytuno ar gynllun a manylion prosiectau tirlunio sy'n cynnwys gwaith plannu ymhell cyn y dyddiad plannu disgwylledig. Mae hyn yn rhoi amser i gyflenwyr gasglu a lluosogi stoc sy'n addas os oes angen. Dylid dewis cyflenwr sy'n gallu dangos o ble y mae ei stoc yn dod.

Dylid gofyn am gynlluniau tirlunio ar gyfer datblygiad a dylid cytuno arnynt mewn da bryd cyn dechrau ar y gwaith.

Dylai'r gwaith plannu a hau gael ei wneud dan yr amodau gorau posibl ar gyfer sefydlu planhigion a'u helpu i oroesi, gan ddefnyddio dulliau a fydd yn sicrhau bod cynifer o blanhigion ag sy'n bosibl yn egino, yn tyfu ac yn goroesi.

<sup>1</sup> Gweler [www.magic.gov.uk](http://www.magic.gov.uk)

Cyn bwrw ymlaen â'r gwaith, dylid ystyried unrhyw ddefnydd sy'n cael ei wneud o'r safle neu o dir cyfagos ar hyn o bryd (neu unrhyw ddefnydd arfaethedig), megis defnydd gan y cyhoedd at ddbenion hamdden.

Ni ddylai cynigion ar gyfer unrhyw brosiect fynd ymhellach na'r cam cynllunio cyn sicrhau yn gyntaf bod adnoddau ar gael a bod ymrwymiad i weithredu'r dulliau rheoli tir neu lystyfiant sy'n angenrheidiol ar ôl gwneud y gwaith plannu. I'r perwyl hwn, bydd angen llunio cynllun rheoli, dod i gytundeb yn ei gyloch a'i brisio'n llawn yn rhan o'r gwaith o gynllunio'r prosiect.

Mae'n bosibl y bydd cyfleoedd i'r gymuned fod yn rhan o gynlluniau plannu. Dylid ystyried hynny lle bo'n ymarferol.

## Dewis rhywogaethau

Mae'n hollbwysig bod rhywogaethau priodol yn cael eu dewis, a'r cam cyntaf yn hynny o beth yw penderfynu ar y gymuned o blanhigion a fydd yn cael ei chreu. Bydd angen i'r gymuned hon fod yn addas ar gyfer diben y prosiect, cyflwr y safle a'i leoliad daearyddol. Y prif ffactorau a fydd yn dylanwadu ar y dewis o rywogaethau a fydd yn tyfu yw cyflwr ffisegol y safle, yn enwedig nodweddion y pridd (e.e. a yw wedi'i ddraenio'n dda neu'n wael, yn llawn calch, yn niwtral neu'n asidig), a'r hinsawdd. Caiff yr hinsawdd ei dylanwadu gan uchder a lledred y safle, y cyfeiriad y mae'n ei wynebu a pha mor agos ydyw i'r môr.

At hynny, mae'n bwysig dewis rhywogaethau brodorol y mae'n arferol eu gweld yn tyfu mewn cynefinoedd lled-naturiol yn yr ardal. Trwy wneud hyn byddwch yn atgyfnerthu cymeriad a bioamrywiaeth y dirwedd leol.

Dylid osgoi rhywogaethau tebyg i chwyn a'r rhywogaethau hynny nad ydynt yn tyfu'n naturiol yn yr ardal. Yr unig bryd y dylid dewis rhywogaethau prin a rhywogaethau sydd dan fygythiad yw pan fyddant yn cael eu cyflwyno'n rhan o brosiect adfer rhywogaeth. Cofiwch na fydd blodau gwyllt sy'n tyfu'n flynyddol, megis y pabi a glas yr yd yn parhau i dyfu os na chaiff y tir ei drin bob blwyddyn.

A oes angen cyflwyno planhigion? Gall cytrefu naturiol weithio'n dda mewn rhai achosion, ac mae'n ddull rhad a fydai'n gweithio'n dda mewn gwlyptiroedd newydd.

## Tarddiad y stoc sy'n cael ei phlannu (gweler y tabl isod)

Mae canllawiau *Flora locale* yn yr adran hon yn deillio o ganlyniadau gwaith ymchwil diweddar ym maes geneteg ecolegol. Diben ystyried tarddiad stoc sy'n cael ei phlannu yw dewis yr ecoteipiau sydd fwyaf tebygol o allu addasu'n dda i amodau'r safle plannu, lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Ceir dolenni cyswllt ar wefan *Flora locale* sy'n cynnig mwy o wybodaeth am waith ymchwil ym maes geneteg a chanllawiau ar sut i ddewis stoc plannu (megis yr onnen a'r dderwen) ar gyfer rhai rhywogaethau penodol.

Mae cytrefu naturiol yn ffordd ddilys o fynd ati i adfer rhai safleoedd bywyd gwyllt sydd wedi'u difrodi neu chwarieli lle mae uwchbridd llawn chwyn wedi cael ei symud oddi yno. Gellir rhoi hwb i'r broses cytrefu naturiol (e.e. trwy wasgaru hadau sydd wedi'u casglu'n lleol, neu blannu toriadau coed helyg o wlyptiroedd cyfagos).

Dylai unrhyw flodau gwyllt, coed a llwyni sy'n cael eu plannu neu eu hau ddod o fan sy'n briodol i'r safle, bioamrywiaeth y safle a chyd-destun y dirwedd, fel yr argymhellir gan *Flora locale* neu awdurdodau cymwys eraill megis yr asiantaethau gwarchod natur cenedlaethol neu'r Comisiwn Coedwigaeth.

Man lleiaf, dylai rhywogaethau brodorol sy'n cael eu plannu darddu o'r un wlad, ynys neu barth hinsoddol bras ym Mhrydain neu Iwerddon â'r man lle bydd y gwaith plannu'n digwydd (a dylai rhywogaethau coed ddod o darddle gwyllt).

Pan fo'r safle plannu o fewn safle neu ardal sy'n sensitif o safbwynt ecolegol neu'n agos i safle neu ardal o'r fath, dylid defnyddio stoc sydd â tharddiad lleol (a dylai coed ddod o darddle lleol). Fel arall, dylai'r safle gael ei reoli i hybu aildyfiant naturiol os yw hynny'n ymarferol (e.e. adfer coetiroedd hynafol). Gall fod yn bwysicach dewis stoc yn ôl

## DOD O HYD I FFLORA BRODOROL

	Tarddiad addas ar gyfer planhigion a hadau brodorol				Allwedd:
	Prydain (neu Gymru, lle bo hynny'n bosibl)	Rhanbarth ym Mhrydain neu Iwerddon sydd â hinsawdd debyg	Cynefin tebyg cyfagos	Aildyfiant naturiol lle bo hynny'n ymarferol	
<b>Lleoliad y safle</b>					
Parciau a gerddi ffurfiol	☼	✓	✓	✗	☼ Y dewis gorau
Ardaloedd trefol, maestrefol a diwydiannol	☼	☼	✓	✗	✓ Derbynol (mae'n bosibl y bydd hwn yn ddewis mwy ymarferol)
Tirwedd sydd wedi'i hamaethu e.e. coetiroedd a gwrychoedd fferm newydd, chwareli wedi'u hadfer	✗	✓	☼	✓	✗ Ni chaiff ei argymhell fel arfer
Ardaloedd sy'n sensitif o safbwynt ecolegol e.e. cyrion arfordirol, ger safleoedd arbennig, cynefinoedd â blaenoriaeth, manau sy'n llawn bioamrywiaeth	✗	✓	☼	☼	Noder: dylid dilyn dull tebyg i hwn wrth ddod o hyd i blanhigion brodorol ar gyfer prosiectau mewn gwledydd eraill.
Safleoedd arbennig e.e. Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig	✗	✗	☼	☼	

y cynefin os yw hynny'n bosibl, ac argymhellir defnyddio'r dull gweithredu hwn ar gyfer cynlluniau creu glaswelltiroedd neu gynlluniau adfer rhostiroedd lle mae safleoedd craidd sy'n bodoli'n barod yn cael eu hehangu trwy greu cynefinoedd.

Yn ddefnyddol, wrth wneud gwaith plannu yng nghefn gwlad, dylid defnyddio hadau a phlanhigion sy'n dod o'r un rhanbarth hinsoddol a'r safle lle maent yn cael eu plannu. Ceir arweiniad ar hyn trwy droi at fapiau sy'n dangos nodweddion cefn gwlad lleol, map y Comisiwn Coedwigaeth o Barthau Hadau Lleol a gwybodaeth leol (gweler y Mapiau o Ranbarthau Bioddaearyddol ar [www.floralocale.org](http://www.floralocale.org)). Gellir defnyddio'r mapiau hyn wrth ddewis ardal i'w chwilio, a bydd angen ehangu'r ardal chwilio os nad oes stoc ar gael o fan sy'n agos i'r safle plannu.

Mae'n bosibl y bydd modd contractio rhywrai i gasglu hadau a thyfu planhigion mewn lleoliadau a enwir, ond mae'n siŵr na fydd amserlenni'r rhan fwyaf o brosiectau yn caniatáu digon o amser ar gyfer hyn. Mae defnyddio gwirfoddolwyr i gasglu hadau a thyfu planhigion yn y cartref neu ar leiniau o dir yn gallu ychwanegu gwerth at brosiectau cadwraeth a gwella dealltwriaeth y cyhoedd ynghylch planhigion gwyllt.

Mae amrywiadau o rai blodau gwyllt a gaiff eu defnyddio at ddibenion porthi, megis pysen-y-ceirw, y godog a'r bwrned ebran, yn gyffredin mewn nifer o gymysgeddau o hadau glaswelltir, a dylid eu hosgoi.

Wrth drafod stoc plannu â'r cyflenwr, mae'n hollbwysig bod y ffiniau ar gyfer tarddiad y stoc honno'n cael eu diffinio'n glir a'u cytuno.

## Ffurf

Dylai ffurf y planhigion (e.e. maint y planhigyn, yr hadau neu'r planhigyn ifanc) fod yn briodol ar gyfer y safle, y rhywogaeth, gofynion y prosiect, y gyllideb sydd ar gael a lefel y gwaith rheoli a fydd yn digwydd ar ôl i'r planhigion gael eu sefydlu.

Gellir cyfeirio at y Rhestr Genedlaethol o Blanhigion a gynhyrchir gan Gymdeithas y Masnachau Garddwriaethol (gweler [www.gohelios.co.uk/NPS.htm](http://www.gohelios.co.uk/NPS.htm)) i gael gwybodaeth am blanhigion ifanc, coed a llwyni. Fodd bynnag, mae'n bosibl mai dim ond rhai meintiau a ffurfiau y bydd pob cyflenwr yn eu cadw, ac mae angen ystyried hyn wrth archebu stoc. Mae angen llawer o ofal ar blanhigion ifanc, maent yn gostus ac yn aml maent yn anaddas ar gyfer y rhan fwyaf o brosiectau mawr.

## Plannu pyllau a chynefinoedd dyfrol eraill

Cytrefu naturiol yw'r dull a gaiff ei ffurfio ar gyfer cynefinoedd dyfrol (heblaw am waith plannu addurnol mewn trefi a dinasoedd), yn enwedig ar gyfer safleoedd mawr megis llynnoedd a grëwyd trwy lanw pyllau graean a llynnoedd pysgota newydd. Bydd hyn yn lleihau'r risg o fewnforio stoc plannu estron o blanhigfeydd planhigion dyfrol. (Ar hyn o bryd, rhywogaethau estron goresgynnol yw un o'r bygythiadau mwyaf i fioamrywiaeth ar draws y byd).

Os ystyrir bod angen gwneud hynny, dylid cyflwyno rhywogaethau brodorol y gwyddys o ble y maent yn dod (gorau oll os ydynt yn tarddu o'r ardal leol) gan ddefnyddio rhai planhigion i gyflwyno'r rhywogaethau i'r safle. Gellir



ystyried defnyddio dulliau cynladwy o gasglu a lluosogi planhigion gwlyptiroedd (e.e. rhisomau cyrs) o leoliadau penodol lle bo hynny'n ymarferol (e.e. ar gyfer prosiectau'n ymwneud â chreu corslwyni).

*Dim ond* planhigion sydd wedi'u lluosogi o stoc frodorol o Brydain ddylai gael eu defnyddio neu eu caniatáu ar gyfer prosiectau sy'n cynnwys cyflwyno planhigion dyfrol sy'n arnofio'n rhydd neu blanhigion dŵr dwfn sydd wedi'u gwreiddio. Mae liliau dŵr yn eithriad pan fyddant yn cael eu plannu mewn pyllau addurnol mewn cynlluniau tirlunio trefol. Fodd bynnag, mae'n well defnyddio planhigion dyfrol brodorol o Brydain.

Dylid golchi unrhyw stoc sydd wedi'i thyfu mewn planhigfa cyn ei phlannu, a hynny'n ddigon pell wrth ardaloedd o wlyptir, er mwyn cael gwared â'r holl bridd a darnau o rywogaethau goresgynnol a allai fod yn bresennol yn y blanhigfa, megis briweg y gors o Seland Newydd.

## Rhywogaethau estron

Dylid cyfyngu'r defnydd a wneir o rywogaethau estron a chyltifarau o rywogaethau brodorol i'r sefyllfaedd canlynol:

- ✿ tirlunio addurnol lle mae ystyriaethau'n ymwneud â sut mae'r safle'n edrych yn cael blaenoriaeth dros ystyriaethau bywyd gwyllt. Mae safleoedd o'r fath, megis parciau a gerddi ffurfiol, yn cael eu rheoli'n ofalus ac mae'r planhigion yn cael eu 'cyfyngu' i'r safle
- ✿ safleoedd dinesig a threfol anodd lle mae rhai rhywogaethau estron penodol yn chwarae rôl ddefnyddiol ochr yn ochr â rhywogaethau brodorol yn



- ☼ y gwaith o adfer safle (e.e. ar dir sydd wedi'i lygru)
- ☼ prosiectau lle mae rhywogaeth estron yn cael ei defnyddio i 'nyrsio' rhywogaeth frodorol (e.e. gwenith ar gyfer hau coed brodorol neu ar gyfer tirweddau blodau gwyllt mewn caeau llafur)
- ☼ rhai cyltifarau amaethyddol o laswelltau nad ydynt yn ymosodol a gaiff eu defnyddio ar gyfer cynlluniau creu glaswelltiroedd mewn ardaloedd trefol neu leoliadau nad ydynt yn sensitif o safbwynt ecolegol; dylai'r cyltifarau a ddewisir fod yn rhai sydd eisoes wedi cael eu cyflwyno'n helaeth i dir amaethyddol
- ☼ rhai rhywogaethau coed sydd wedi cael eu cyflwyno sydd â chysylltiad hir â lleoliad ac sy'n cyfrannu at gymeriad arbennig y dirwedd (ac eithrio'r sycamorwydden mewn ardaloedd lle mae hon yn rhywogaeth oresgynnol mewn coetiroedd brodorol).

Ni ddylid plannu rhywogaethau estron a chyltifarau, megis cyltifarau cennin Pedr, tiwlipau, clychau'r-gog Sbaenaidd a briallu cochion mewn coetiroedd, cynefinoedd lled-naturiol, ar hyd ochrau ffyrdd neu ar dir arall y tu allan i ardaloedd adeiledig trefi a phentrefi.

Mae'n anghyfreithlon plannu rhai rhywogaethau ar dir gwyllt.

## Archwilio a sicrhau ansawdd prosiectau corfforaethol

Dylai prosiectau sylweddol, megis plannu ar hyd ochrau ffordd fawr newydd, gael eu goruchwyllo a'u monitro'n iawn am gyfnod priodol ar ôl y gwaith plannu. Gallai hyn olygu bod angen ymrwymo adnoddau, a dylai hyn gael ei gynnwys yng nghontract neu gytundeb y datblygwr.

Yn achos prosiectau mawr, mae'n bosibl y bydd angen cadw cofnodion manwl at ddiobenion archwilio. Gellir rheoli gweithdrefnau archwilio trwy eu cynnwys mewn Systemau Rheolaeth Amgylcheddol a Systemau Sicrhau Ansawdd priodol.

Os caiff hadau eu defnyddio, dylid cadw samplau ohonynt er mwyn eu profi, pe byddai ymholiadau'n codi.

Gellir gofyn i gyflenwyr ddangos tystiolaeth o darddiad eu stoc plannu ('adnabod tarddiad').

Argymhellir bod cwmnïau sy'n ymgymryd â nifer sylweddol o brosiectau mawr yn mabwysiadu gweithdrefnau sicrhau ansawdd ar gyfer prosiectau'n ymwneud â fflora brodorol. Dylai'r gweithdrefnau hyn ymdrin â'r canlynol:

- ☼ adnabod tarddiad planhigion a gallu gwirio'r gadwyn gyflenwi
- ☼ ansawdd planhigion
- ☼ paratoi'r safle, plannu a rheoli'r safle ar ôl y gwaith plannu
- ☼ gweithdrefnau monitro: goroesiad planhigion a chyflwr y safle am hyd at dair blynedd ar ôl iddo gael ei sefydlu.

Mae arweiniad pellach ar ansawdd planhigion a ffyrdd o'u trin ar gael gan Gymdeithas y Masnachau Garddwriaethol.

## Polisiau ac arferion sy'n bodoli eisoes

Dylai cwmnïau mawr, awdurdodau lleol, mudiadau gwirfoddol ac asiantaethau datblygu rhanbarthol ystyried yr egwyddorion a geir yn yr arweiniad hwn wrth baratoi

dogfennau eraill megis:

- ☼ gweithdrefnau Gwerth Gorau
- ☼ Systemau Rheolaeth Amgylcheddol
- ☼ polisiau perthnasol eraill (e.e. caffael nwyddau a gwasanaethau)
- ☼ Strategaethau cymunedol
- ☼ Arweiniad cynllunio atodol perthnasol
- ☼ cynlluniau a fframweithiau datblygu.

Argymhellir yn gryf bod awdurdodau lleol ac asiantaethau datblygu rhanbarthol yn cyflogi ecolegydd proffesiynol; gall y person hwnnw helpu i sicrhau bod gweithgareddau a pholisiau adrannol yn ystyried bioamrywiaeth (gan gynnwys rhwymedigaethau statudol). Mae modd i unigolion a sefydliadau ymaelodi â Chymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol – sy'n cefnogi swyddogion proffesiynol mewn awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol. Ewch i [www.alge.org.uk](http://www.alge.org.uk) i gael mwy o fanylion.

## Plannu a thrawsleoli er mwyn adfer rhywogaethau

Dylid dilyn y canllawiau a gynhyrchwyd gan y Cydbwyllgor Gwarchod Natur. Gweler *A Policy for Conservation Translocations of Species in Britain*, sydd ar gael ar [www.jncc.gov.uk/page-2920](http://www.jncc.gov.uk/page-2920).

## Gwybodaeth bellach ar [www.floralocale.org](http://www.floralocale.org)

Ceir gwybodaeth fanylach am y rhan fwyaf o'r pethau sy'n cael eu trafod yn yr arweiniad hwn ar wefan *Flora locale*, gan gynnwys nodiadau cynghori (gweler y rhestr gyfredol ar y clawr cefn) a dogfennau heb eu cyhoeddi megis *Planting with wildlife in mind: Planting strategies for ecological restoration and habitat creation* (nodyn technegol), *Obtaining planting stock for habitat creation projects* (tudalen we â dolenni cyswllt) a rhestr o gyflenwyr. Defnyddiwch y blwch chwilio neu ewch yn syth i'r Parth Gwybodaeth/Llyfrgell Ar-lein i chwilio am wybodaeth am greu cynefinoedd, plannu, hadau, planhigion ifanc, dod o hyd i blanhigion, cadwraeth enetig a llawer mwy.

## Cyfeiriadau allweddol eraill

- Natural England. 2008. Stiwardiaeth Lefel Uwch. Llawlyfr ar nodweddion y Cynllun Amgylchedd Fferm. Arweiniad technegol ar adnabod, disgrifio cyflwr, asesu a chofnodi nodweddion Cynllun Amgylchedd Fferm Stiwardiaeth Lefel Uwch.
- Graham White a Jo Gilbert (Golygyddion). 2003. RSPB. *Habitat Creation Handbook for the Minerals Industry*. ISBN 1 901930 37 8. £24.99 gan yr RSPB, gellir archebu copiâu trwy ffonio 01767 680551.
- Landlife. *Wildflowers Work, Woodland Wildflowers Work, Topsoil Inversion: breaking new ground in forestry*, a llawer o wybodaeth am rywogaethau planhigion a dulliau sefydlu. Ewch i [www.wildflower.org.uk](http://www.wildflower.org.uk), neu ffoniwch: 0151 737 1819.
- Mike Oxford. 2000. *Developing Naturally: A handbook for incorporating the natural environment into planning and development*. Cymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol. £31.25 gan Mike Oxford, PO Box 1164, Pensford, Bristol BS39 4YB.
- Oliver Gilbert a Penny Anderson. 1998. *Habitat Creation and Repair*. Gwasg Prifysgol Rhydychen. ISBN 0 19 854966 0.
- RSPB. Amrywiaeth o lawlyfrau a chanllawiau'n ymdrin â gwahanol gynefinoedd, gan gynnwys rhostiroedd, glaswelltiroedd gwlyb, corslwyni a gwlyptiroedd eraill. Ewch i [www.rspb.org.uk/ourwork/conservation/managingreserves/habitats/index.asp](http://www.rspb.org.uk/ourwork/conservation/managingreserves/habitats/index.asp)
- Swyddfa'r Alban. 1998. *Cost Effective Landscape: Learning from Nature. Landscape Design and Management Policy. A roads, bridges and traffic in the countryside initiative*. £15 o'r Llyfrfa. ISBN 0 7480 5863 X.
- Cymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol a'r Safonau Prydeinig. PAS 2010. *Biodiversity conservation standards for planning in the United Kingdom, Code of Practice*. (<http://eshop.bsi-global.com>).

# ASTUDIAETHAU ACHOS



## Astudiaeth achos 1:

### Cwmni Salix River and Wetland Services a Llywodraeth Cynulliad Cymru

Gwnaed gwelliannau i bron i 1km o wely afon, a oedd yn cynnwys creu rhai rhannau newydd, yn rhan o brosiect amddiffyn rhag llifogydd yng nghanol tref hanesyddol Penfro yn Ne Cymru. Arferai rhan uchaf y nant fach hon redeg ar hyd sianel goncrit gyfyng siâp U, ac nid oedd yn werthfawr iawn o safbwynt ecolegol neu o ran tirwedd. Cafodd sianel droellog newydd ei chreu a'i sefydlogi a gwnaed gwelliannau iddi gan ddefnyddio dulliau biobeirianeg. Gosodwyd rholiau rhisgl coconyt, a gafodd eu plannu ymlaen llaw â chymysgedd o hadau a oedd yn addas i'r safle, er mwyn sefydlu llystyfiant ar hyd y glannau a'u hatal rhag erydu. Plannwyd cymysgedd o flodau gwyllt lleol ar hyd y glannau a chawsant eu gorchuddio â blancedi pydradwy sy'n rheoli erydiad. Mae'r sianel newydd yn lleihau'r risg o lifogydd, ac mae'n cynnig gwell cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt a nodwedd sydd o ddiddordeb yn y dref.

## Astudiaeth Achos 2:

### Dôl fyw Cwmni Theatr Shakespeare Link

#### Wedi'i phriodoli i Phil a Sue Bowen ac Ursula Bowen

Mae'r Glôb Byw yn fersiwn llai o Theatr y Glôb yn Llundain. Roedd perchnogion y theatr am ail-greu lleoliad priodol ar gyfer y theatr – roedd dolydd byw i'w gweld ymhobman yng nghyfnod Shakespeare. Tynnwyd yr uwchbridd oddi ar ardal o laswelltir gerllaw'r theatr nad oedd yn cynnwys llawer o flodau gwyllt, cyn cyflwyno blodau gwyllt a glaswelltau brodorol gan ddefnyddio planhigion ifanc a hadau. Mae gwirfoddolwyr yn helpu i dyfu mwy o blanhigion ifanc o hadau hefyd. Bydd yr ardal yn cael ei thorri yng nghanol yr haf, yn yr un modd â dôl wair. Bydd hyn yn annog y blodau gwyllt i ledi.



## Astudiaeth Achos 3:

### Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Mae prosiect cyffrous yn cael ei ddatblygu ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae cynaeafwr hadau sy'n eiddo i Ymddiriedolaeth Natur Sir Drefaldwyn a Chyngor Sir Powys yn cael ei ddefnyddio i gynaeafu hadau o laswelltiroedd penodol yn y Parc Cenedlaethol. Mae'r glaswelltiroedd hynny'n rhai sydd â chyfoeth o rywogaethau ac sy'n cael eu rheoli mewn modd traddodiadol. Ar ôl iddynt gael eu casglu mae'r hadau blodau gwyllt hyn ar gael i dirfeddianwyr sy'n gwella eu dolydd byw. Mae'r dull hwn o gasglu a dosbarthu hadau lleol yn sicrhau bod yr holl hadau'n frodorol i'r ardal lle maent yn cael eu defnyddio. At hynny, mae'n lleihau'r gost sydd ynghlwm wrth brynu hadau blodau gwyllt ac felly'n rhoi'r cyfle i fwy o dirfeddianwyr wella cynefinoedd a chynyddu nifer y blodau gwyllt yng nghefn gwlad. Unwaith y bydd dolydd wedi'u hadfer ac wedi'u sefydlu, gellir eu cynaeafu, gan sicrhau bod hadau ar gael yn haws, cynyddu gwerth y ddôl a dod ag incwm ychwanegol i'r fferm.



## Astudiaeth Achos 4:

### Coed brodorol i Bowys

Mae'r prosiect hwn yn ceisio codi ymwybyddiaeth ynghylch coed brodorol ym Mhowys a chynyddu'r defnydd ohonynt. Caiff y prosiect ei ariannu gan raglen LEADER+ yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer Powys a Chanolbarth Cymru, ac mae'n rhoi cymorth i'r sawl sy'n tyfu coed ym Mhowys ac yn gwerthu eginblanhigion sydd wedi'u tyfu o stoc a gasglwyd yn lleol, ac mae'n hybu'r arfer o blannu coed brodorol priodol sy'n dod o'r ardal lleol. Ceir gwybodaeth bellach a rhestr o dyfwyr lleol sy'n cymryd rhan yn y prosiect hwn ar [www.nativetrees.org.uk](http://www.nativetrees.org.uk).



## Astudiaeth Achos 5:

### Trafnidiaeth ac Adfywio Strategol

#### Llywodraeth Cynulliad Cymru â chontractwyr (Nuttalls/Hyder) ac ymgynghorwyr (Parsons Brinckerhoff/White Young Green)

Pan gafodd ffordd osgoi newydd tref Talgarth ym Mhowys ei hadeiladu, penderfynwyd hau cymysgedd o flodau gwyllt o sawl rhywogaeth ar y llethrau y naill ochr i'r ffordd. Cafodd y cymysgedd hwn ei gasglu o ddôl fyw o ansawdd uchel gerllaw. Cafodd yr hadau eu cynaeafu ym mis Gorffennaf 2006 a chawsant eu hau ar ôl i'r safle gael ei glirio ym mis Awst a mis Medi 2006; ac mae ardaloedd newydd o flodau gwyllt yn dechrau dod i'r amlwg. Cafwyd problemau'n ymwneud â sefydlogrwydd y llethr mewn un man, ond erbyn hyn mae'r problemau hyn wedi'u datrys trwy ddarparu system ddraenio well.



# Gellir lawrlwytho Nodiadau Cyngkori *Flora locale* yn rhad ac am ddim o [www.floralocale.org](http://www.floralocale.org)

## Cyffredinol

- ✿ Darganfod planhigion gwyllt
- ✿ Designing and planning a project
- ✿ Planting and sourcing strategies for native flora
- ✿ Planting strategies for ecological restoration and habitat creation
- ✿ Who can supply native flora?
- ✿ Code of practice for collectors, growers and suppliers of native flora
- ✿ Buying native flora
- ✿ Types of native plant material available
- ✿ Seed collecting and the law

## Coetiroedd

- ✿ Enhancement of amenity woodland field layers in Milton Keynes
- ✿ Creating woodlands naturally
- ✿ Restoring ghyll woods

## Gwlyptiroedd

- ✿ Reed propagation
- ✿ Planting near watercourses

## Glaswelltiroedd


- ✿ Sources of advice and information
- ✿ Collecting and using brush harvested seed
- ✿ Spreading forage-harvested grass from a hay meadow
- ✿ Creating wildflower meadows on improved agricultural grassland sites
- ✿ Spreading green hay
- ✿ Managing recently created grasslands
- ✿ Obtaining native seed
- ✿ Sowing wild flora seed
- ✿ Enhancing the floral diversity of semi-improved grassland
- ✿ Methods of collecting seed from native grasslands
- ✿ Adfer dolydd blodau gwyllt Cymru
- ✿ Pori er budd planhigion gwyllt a bioamrywiaeth

Ewch i wefan newydd *Flora locale* sy'n canolbwyntio'n benodol ar laswelltiroedd blodau gwyllt: [www.wildmeadows.org.uk](http://www.wildmeadows.org.uk).

## Erail

- ✿ Harvesting and using heather seed
- ✿ Using native flora for quarry restoration
- ✿ Planting road verges
- ✿ Wild plants and your village green

Cefnogwyd y cyhoeddiad hwn gan:



Nod *Flora locale* yw ailgyflwyno planhigion gwyllt a chymunedau planhigion gwyllt i diroedd a thirweddau ar draws y DU, ac wrth wneud hynny gwella bioamrywiaeth ac ansawdd amgylcheddol trefi a chefn gwlad a gwella mwynhad pobl ohonynt.

**Flora locale, Postern Hill Lodge, Marlborough, Wiltshire SN8 4ND**  
**Ffôn: 01672 515723 E-bost: [info@floralocale.org](mailto:info@floralocale.org) Gwefan: [www.floralocale.org](http://www.floralocale.org)**

Mae *Flora locale* yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (Rhif 1071212), yn elusen gofrestredig yn yr Alban (Rhif SCO39001) ac yn gwmni cyfyngedig trwy warant yn y DU (Rhif 3539595).

© *Flora locale* (DU) Ionawr 2009. Cewch lawrlwytho'r cyhoeddiad hwn a'i ddsbarthu'n electronig o wefan *Flora locale* neu ei lungopio, ond ni chewch ei gyhoeddi na'i werthu er elw ariannol. Er mwyn cael caniatâd i atgynhyrchu darnau i'w cyhoeddi (yn electronig neu fel arall), cysylltwch ag [info@floralocale.org](mailto:info@floralocale.org). Nodyn cyngori yn unig yw hwn. Nid yw *Flora locale* yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am y defnydd y mae unigolion, busnesau neu sefydliadau'n ei wneud o'r ddogfen hon.